

2022 Rhif (Cy. )

2022 No. (W. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487  
(Ffordd Osgoi Caernarfon a  
Bontnewydd, Gwynedd)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2022

The A487 Trunk Road (Caernarfon  
and Bontnewydd Bypass,  
Gwynedd) (Temporary Prohibition  
of Vehicles) Order 2022

Gwnaed 8 Medi 2022  
Yn dod i rym 12 Medi 2022

Made 8 September 2022  
Coming into force 12 September 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

### Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi Caernarfon a'r Bontnewydd, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Medi 2022.

### Title and commencement

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Caernarfon and Bontnewydd Bypass, Gwynedd) (Temporary Prohibitions of Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 12 September 2022.

### Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

### Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 22:00 o’r gloch ar 12 Medi 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### **Cymhwyso**

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Medi 2022

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLEN**

### **Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

1. Y darn o gefnffordd yr A487 sy’n ymestyn o ochr ddeheuol ei chyffordd â Chylchfan Plas Menai hyd at ochr ogleddol ei chyffordd â Chylchfan Cibyn.
2. Y darn o gefnffordd yr A487 sy’n ymestyn o ochr ddeheuol ei chyffordd â Chylchfan Cibyn hyd at ochr ogleddol ei chyffordd â Chylchfan Meifod.
3. Y darn o gefnffordd yr A487 sy’n ymestyn o ochr ddeheuol ei chyffordd â Chylchfan Meifod hyd at ochr ogleddol ei chyffordd â Chylchfan y Goat.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 22:00 hours on 12 September 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### **Prohibition**

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 8 September 2022

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

## **SCHEDULE**

### **Temporary Prohibition of Vehicles**

1. The length of the A487 trunk road that extends from the southern side of its intersection with Plas Menai Roundabout to the northern side of its intersection with Cibyn Roundabout.
2. The length of the A487 trunk road that extends from the southern side of its intersection with Cibyn Roundabout to the northern side of its intersection with Meifod Roundabout.
3. The length of the A487 trunk road that extends from the southern side of its intersection with Meifod Roundabout to the northern side of its intersection with Goat Roundabout.